



Nos Iau, 11 Ionawr 2024 – 7.30yh  
Shiloh, Cwm Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **Nos Iau 11 Ionawr 2024** am 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Shiloh

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Croeso i'r Cynghorydd newydd
3. Datganiad o fuddiant
4. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
5. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad Cyllidol
8. Praecept 2024-2025
9. Materion Cynllunio
10. Materion eraill

Minutes of a meeting held on **Thursday 11 January 2024** at 7.30 at Shiloh Community Centre

1. Welcome and apologies for absence
2. Welcome to the new Councillor
3. Declaration of interest
4. Confirmation of the minutes from the previous meeting
5. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
6. Correspondence
7. Financial Report
8. Precept 2024-2025
9. Planning Applications
10. Any other business

**Presennol:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd)  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Is Gadeirydd)  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (Cyngorydd Sir)  
Gwawr Owen (cyfieithydd)

+1 aelod o'r cyhoedd (yn bresennol ar gyfer hanner cyntaf y cyfarfod)

**Ymddiheuriadau:**

Dim

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd.

**Present:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf (Chairperson)  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Deputy Chair)  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (County Councillor)  
Gwawr Owen (translator)

+1 member of the public (present for the first half of the meeting)

**Apologies:**

None

The meeting was opened by the chairperson.

## Croeso i'r Cynghorydd Newydd

Estynnwyd croeso cynnes i Bethan Corrigan, y cynghorydd newydd. Diolchwyd i bawb a ddangosodd ddiddordeb yn y rôl.

## Datganiad o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **23 Tachwedd 2023** fel rhai cywir, Dylan Davies yn cynnig a Claire Roberts yn eilio.

## Materion yn codi:

**Lorïau yng Nghwm Penmachno:** Adroddwyd bod y Clerk yn dal i aros i weld dyluniadau ar gyfer yr arwyddion newydd ar yr A5. Adroddwyd bod lori arall eto wedi mynd yn sownd yn Hafodyredwydd a bu'n rhaid cau'r ffordd.

**Sgipiau:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir bellach wedi anfonebu'r Cyngor Cymuned yn gywir ar gyfer y ddwy sgip. Penderfynwyd gofyn am ddwy sgip arall.

**Toiledau Cyhoeddus:** Adroddwyd bod y Clerk yn aros am glo newydd ar gyfer y drws.

**Cerbydau Goryrru:** Adroddwyd bod cwyn bellach wedi'i derbyn am gerbydau yn goryrru a bod cyfarfod GanBwyl: Gwylio Cyflymder Cymunedol wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror.

**Sied Fawr:** Adroddwyd bod y rheolau cynllunio ynghylch siediau yn gymhleth ac yn dibynnu ar ba ochr i'r tŷ yw'r sied a pha mor bell i ffwrdd o'r tŷ yw'r sied. Penderfynwyd gofyn i Awdurdod y Parc ymchwilio.

**Diffibrilwyr:** Adroddwyd bod y ddau ddiffibriliwr ym Mhenmachno bellach wedi'u cofrestru a bydd y Clerk yn derbyn hysbysiadau pan fyddant yn cael eu defnyddio neu pan fydd angen eu gwirio. Mae'r Gwasanaeth Ambiwlans yn talu am gostau o ddydd i ddydd ond bydd yn disgwyl i'r Cyngor Cymuned i brynu diffibrilwyr newydd pan ddaw'r amser ar gost o fwy na £800.

**Pen y Bryn:** Cadarnhawyd nad oes gan CNC unrhyw gynlluniau i blannu coed ar Foel Pen y Bryn.

## Welcome to the New Councillor

A very warm welcome was extended to Bethan Corrigan, the new Councillor. Everybody who showed an interest in the role was thanked.

## Declaration of interest

There were no declarations

## Confirmation of the minutes

The minutes of the **23 November 2023** meeting were accepted as a true record, proposed by Dylan Davies and seconded by Claire Roberts.

## Matters arising:

**Lorries in Cwm Penmachno:** It was reported that the Clerk is still waiting to see designs for the new signs on the A5. It was reported that yet another lorry had become stuck at Hafodyredwydd and the road had had to be closed.

**Skips:** It was reported that the County Council had now invoiced the Community Council correctly for the two skips. It was decided to ask for two more skips.

**Public Toilets:** It was reported that the Clerk is waiting for new lock for the door.

**Speeding Vehicles:** It was reported that a further complaint had been received about vehicles speeding and that a GoSafe: Community Speed Watch meeting had been arranged for February.

**Large Shed:** It was reported that the planning rules regarding sheds are complicated and depend where the shed is, and how far away the shed is, in relation to the house. It was decided to ask the Park Authority to investigate.

**Defibrillators:** It was reported that both defibrillators in Penmachno are now properly registered and the Clerk will receive notifications when they are used or need to be checked. The Ambulance Service pays for day to day costs but will look to the Community Council to replace the devices when the time comes at a cost of more than £800.

**Pen y Bryn:** It was confirmed that NRW have no plans to plant trees on Moel Pen y Bryn.

<b>Gohebiaeth</b>	<b>Correspondence</b>
<b>Grant:</b> Adroddwyd bod y Cyngor wedi bod yn aflwyddiannus wrth geisio sicrhau grant i drwsio wal y fynwent.	<b>Grant:</b> It was reported that the Council had been unsuccessful in trying to secure a grant to fix the cemetery wall.
<b>Adroddiad Cyllidol</b>	<b>Financial Report</b>
Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn. Adroddwyd bod Archwilio Cymru wedi anfon anfonebau gwerth cyfanswm sylweddol o £1,376.	The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis. It was agreed that everything was in order. It was reported that Audit Wales had charged substantial fees totalling £1,376.
<b>Praesept</b>	<b>Precept</b>
Cytunwyd yn unfrydol i osod praecept ar gyfer 2024-2025 ar £11,431.	It was agreed unanimously to set precept for 2024-2025 at £11,431.
<b>Materion Cynllunio</b>	<b>Planning</b>
Adroddwyd bod perchnogion Gwesty'r Machno wedi apelio yn erbyn rhybudd Adran 215 Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt dacluso'r maes parcio. Mae'r Cyngor Cymuned wedi ysgrifennu i gefnogi Awdurdod y Parc.	It was reported that the owners of the Machno Hotel have appealed the National Park Authority's enforcement notice which requires them to tidy up the carpark. The Community Council has written in support of the Park Authority.
<b>Materion eraill</b>	<b>Other matters</b>
<b>Llwybr Cyhoeddus 75: Blaen-y-cwm:</b> Adroddwyd bod y llwybr cyhoeddus yn llithrig ac yn beryglus ac wedi'i adrodd i CNC.	<b>Footpath 75: Blaen-y-cwm:</b> It was reported that the footpath is slippery and dangerous and has been reported to NRW.
<b>Ffensys:</b> Adroddwyd bod angen trwsio'r ffensys yn y parciau yn y ddau bentref.	<b>Fences:</b> It was reported that the fences at the parks in both villages need attention.
<b>Llinellau ffôn digidol a diffyg gwasanaeth ffôn symudol:</b> Adroddwyd bod llawer o bobl wedi cael eu torri i ffwrdd o'r Rhyngrywd am sawl diwrnod yn dilyn storm a achosodd lawer o broblemau. Nid oedd preswylwyr â llinellau ffôn "digidol" newydd (voip) yn gallu gwneud na derbyn galwadau. Adroddwyd bod y ddau bentref yn dal i ddioddef oherwydd diffyg signal ffôn symudol.	<b>Digital telephone lines and lack of mobile service:</b> It was reported that many people had been cut off from the Internet for several days following a storm which caused many problems. Residents with new "digital" telephone lines (voip) were unable to make or receive calls. It was reported that both villages are still suffering due to the lack of mobile phone signal.
<b>Cyfarfod nesaf</b> Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, 07 Mawrth 2024, 7.30 yn Festri Capel Salem	<b>Next meeting</b> The next meeting will be held on Thursday 07 March 2024, 7.30 at Capel Salem Vestry.